# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, H.C. Hamilton a M.J.G. Morgan.

Hefyd yn bresennol: C. Birch (Ymgeisydd), J. Cook (Person Arall), J. Dudley (Person Arall), S. Randell (Person Arall), D. Ashworth (Person Arall) ac Y. Witchell (Swyddog Trwyddedu, Cyngor Bro Morgannwg). ), R. Price (Swyddog Cyfreithiol, Cyngor Bro Morgannwg) a G. Davies ((Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Craffu, Cyngor Bro Morgannwg).

(a) Cyhoeddiadau -

Cyn i fusnes y pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb sy’n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw yn ogystal â’i recordio ar y rhyngrwyd ac y bydd y recordiad hwn yn cael ei archifo i’w wylio yn y dyfodol.”

Dywedodd y swyddog hefyd fod copi o’r weithdrefn ar gyfer y cyfarfod ar gael i’r aelodau etholedig yn y papurau agenda a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.

DS Anfonodd y Cynghorydd V.P. Driscoll, a oedd i fod yn bresennol yn wreiddiol fel Aelod o’r Is-bwyllgor Trwyddedu, ymddiheuriadau, gyda’r Cynghorydd H.C. Hamilton yn bresennol yn lle.

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – BOD Y Cynghorydd P. Drake gael ei ethol yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawiad yr Is-bwyllgor

(c) Datganiadau Buddiant –

Dywedodd y Cynghorydd M.J.G. Morgan fuddiant personol sef bod ei fusnes wedi ei leoli yn Llanilltud Fawr ac felly ei fod yn hysbys i rai o'r Personau Eraill, ond nid mewn modd rhagfarnllyd.

(d) Caniatáu Trwydded Safle – Fredwell Bistro, Wine Street, Llanilltud Fawr, CF61 1RZ –

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i wrandawiad yr Is-bwyllgor a gwahoddodd bob person i gyflwyno ei hun.

Wedi hynny gwahoddodd y Cadeirydd Y. Witchell, y Rheolwr Tîm ar gyfer Trwyddedu, i gyflwyno'r adroddiad i'r Is-bwyllgor, a ddywedodd fod yr adroddiad i ystyried cais dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf") i roi Trwydded Safle i Fredwell Bistro, Wine Street, Llanilltud Fawr.

Roedd papurau'r adroddiad yn cynnwys y broses ymgeisio; copi o'r ffurflen gais; amodau arfaethedig a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru; ac atodlen sylwadau a dderbyniwyd gan y Cyngor.

Roedd y cais yn ceisio gwerthu alcohol rhwng 09.30am a 10.30pm, o ddydd Llun i ddydd Sul ar y safle. Yn ogystal, cafwyd cais i weini lluniaeth yn hwyr yn y nos ac i chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio, er bod y rhain o fewn yr amseroedd caniataëdig pe bai'r drwydded safle yn cael ei rhoi a / neu gellid gwneud y rhain y tu allan i’r drefn drwyddedu mewn unrhyw ddigwyddiad ar sail yr amseroedd y gwnaethpwyd cais amdanynt.

Ar 21 Rhagfyr 2022 fel ymateb i'r hysbysiad ymgynghori a gylchredwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu, cyflenwodd yr Adran Gynllunio gopi o'r caniatâd cynllunio cyfredol ar gyfer y safle, gan dynnu sylw at nifer o gyfyngiadau. Nid yw ceisiadau Cynllunio a Thrwyddedu wedi eu cyflwyno ar yr un pryd fel y rhagwelir yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddwyd y wybodaeth hon i'r ymgeisydd a oedd felly â'r hawl i barhau â'r cais am Drwydded Safle cyn cyflwyno cais cynllunio i'r Cyngor i’w ystyried.

Wedi hynny, bu trafodaethau rhwng yr Ymgeisydd a Heddlu De Cymru, Awdurdod Cyfrifol, am nifer o amodau ychwanegol oedd wedi’u cynnig gan yr Awdurdod Cyfrifol, y cytunwyd i’r rhan fwyaf ohonynt.

- Bydd system Teledu Cylch Cyfyng yn cael ei gosod i safon y cytunir arni fel y cymeradwyir gan Heddlu De Cymru, a bydd yn cael ei chynnal, ei chadw a’i gweithredu bob amser y bydd y safle ar agor i’r cyhoedd. Bydd y system yn cadw golwg ar bob rhan o’r safle lle mae gan y cyhoedd fynediad (ac eithrio tai bach) gan gynnwys pob mynedfa ac allanfa gyhoeddus. Bydd y delweddau ar gael am o leiaf 31 diwrnod. Caiff y delweddau eu rhoi i un o gyflogeion yr Heddlu mewn fformat y gellir ei chwarae ar unwaith ar gais pan fo'r safle ar agor i’r cyhoedd, ac ar adegau eraill pan fydd hynny’n ymarferol bosibl. Bydd nifer ddigonol o staff hyfforddedig i hwyluso'r uchod.
- Bydd y safle'n gweithredu polisi ‘Her 25’. Caiff sylw cwsmeriaid ei ddwyn at y polisi hwn gan staff a thrwy arddangos arwyddion priodol. Yr unig fath o brawf adnabod a dderbynnir fydd cardiau adnabod â ffotograff arnynt, megis trwydded yrru, pasbort, Cerdyn Lluoedd EF neu gerdyn cynllun prawf oedran gyda logo PASS.
- Bydd cofnod digwyddiadau’n cael ei gadw yn y safle. Bydd unrhyw achos o drosedd neu anhrefn a welwyd gan staff neu unrhyw ddigwyddiad a

gofnodwyd gan gwsmeriaid yn cael ei adrodd yn y log. Caiff y wybodaeth ganlynol ei chofnodi mewn perthynas â phob digwyddiad:

- Dyddiad ac amser y digwyddiad
- Enw'r person sy'n gwneud yr adroddiad
- Enwau'r partïon perthnasol (os yn hysbys) neu ddisgrifiad o'r partïon (mor fanwl â phosibl)
- Natur y digwyddiad
- Unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd ar ôl hynny
- Gwrthod gwerthu.

- Bydd staff yn cael eu hyfforddi yn unol â'u cyfrifoldeb i gwblhau adroddiad digwyddiad. Bydd mynediad i adroddiadau digwyddiadau ar gael i Heddlu De Cymru ar gais.
- Bydd yr holl staff sy'n delio â chwsmeriaid yn derbyn hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â gwerthu alcohol a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei adnewyddu'n flynyddol gyda chofnod yn cael ei gadw yn y safle. Bydd y cofnod hyfforddiant yn cael ei gadw am gyfnod o 12 mis a bydd ar gael i'w archwilio ar gais gan swyddog Heddlu De Cymru neu berson awdurdodedig arall.
- Bydd o leiaf 50% o'r ardal drwyddedig yn fyrddau a chadeiriau.

Wedi hynny, gwahoddodd y Cadeirydd yr Ymgeisydd, C. Birch, i gyflwyno ei achos. Dywedodd C. Birch mai'r bwriad oedd agor fel Bistro a gweithredu'n bennaf fel caffi er mwyn i bobl gael gwydraid o win gyda'u pryd. Roedd safle'r Bistro'n adeilad bach gyda lle i ddim mwy na 25 o bobl, wedi'i anelu at gwsmeriaid pen uchaf. Dywedodd yr Ymgeisydd, os oedd person eisiau mynd i dafarn, yna fe allai ef, ond ei fwriad oedd creu lle cymharol hamddenol wedi'i anelu at farchnad hŷn, oedd yn seiliedig ar fistros arddull Ffrengig gan weini cynnyrch lleol. Dywedodd C. Birch ei fod yn cytuno ag amodau'r Heddlu sydd ynghlwm â'r adroddiad gyda therfyn tair diod ar y fwyaf i gwsmeriaid a dywedodd fod lleoedd lleol eraill lle gallai pobl yfed swm mwy o alcohol. O ran y pwyntiau a godwyd gan breswylwyr, dywedodd y gallent fod wedi siarad ag ef ar unrhyw adeg, ond roedd yn bwysig cadarnhau nad oedd y Bistro'n lle i bobl feddwi gan y byddai gan y Bistro awyrgylch mwy hamddenol, gyda phrisiau alcohol drutach. Dywedodd nad oedd am wneud cais cynllunio ar hyn o bryd a derbyniodd y gallai'r safle weithredu dim ond yn unol â'r caniatâd cynllunio a'r amodau cyfredol.

Gofynnodd y Cadeirydd am y terfyn tair diod. Wrth ateb, cadarnhaodd yr Ymgeisydd mai tri gwydraid fyddai'r terfyn, rhywbeth a awgrymwyd gan Heddlu De Cymru. Er mwyn monitro bod system tabiau newydd wedi'i gosod.

Wrth ateb cwestiwn pellach gan y Cadeirydd, cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai gwin yn dod o ddwy winllan leol, gyda chwrw yn cael ei gyflenwi gan fragdy ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Byddai rhywfaint o win hefyd yn dod o winllan yn Ffrainc lle'r oedd yn berchen ar gyfranddaliadau.

O ran y caniatâd Cynllunio cyfredol a'r cyfyngiadau o ran yr oriau agor, cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai'n ceisio amrywio'r caniatâd Cynllunio pe bai'r Bistro'n mynd yn brysurach.

Dywedwyd wrth yr Is-Bwyllgor nad oedd cynrychiolwyr o Awdurdodau Cyfrifol, ac y gallai'r gwrandawiad felly symud ymlaen i unrhyw Bartïon â Diddordeb a allai ehangu ar unrhyw sylwadau yr oedden nhw wedi'u cyflwyno o'r blaen.

Dechreuodd J. Cook drwy ddweud ei bod yn gwrthwynebu fel preswylydd yr oedd ei heiddo'n ffinio â'r Bistro. Roedd hi'n ymwybodol iawn bod gan yr Awdurdod Trwyddedu seiliau y bu'n rhaid iddo wneud ei benderfyniad arnynt, sef atal niwsans cyhoeddus a throsedd ac anhrefn. Cyfeiriwyd at ganllawiau newydd y Swyddfa Gartref, a oedd yn nodi y dylai'r Ymgeisydd gyflwyno digon o dystiolaeth i ddangos ei fod yn deall, ymysg pethau eraill, yr agosrwydd at safleoedd preswyl ac o ganlyniad yr effaith. Mae'n ymddangos, wedi adolygu'r cais am drwydded, nad oedd hyn wedi'i gyflwyno. O ran atal niwsans cyhoeddus, ychwanegodd fod Wine Street yn stryd gul, ac y byddai cyflwyno trwydded hwyr yn cyflwyno cwsmeriaid, cerddoriaeth, ysmygu a thacsis ychwanegol. Ychwanegodd J. Cook fod pobl yn wahanol yn ystod noson allan ac fel arfer yn fwy swnllyd. Roedd ffrynt y safle yn gwbl wydr, heb unrhyw lobi fewnol. Ar hyn o bryd, roedd y safle'n gweithredu fel caffi tawel ac roedd yn cau am 5.00pm yn ystod yr wythnos ac am 2.00pm ar ddydd Sadwrn gan beidio ag agor ar ddydd Sul. Dywedodd J. Cook fod Bistro yn gynnig cwbl wahanol a fyddai'n cynyddu problemau sŵn a gwastraff. Dywedodd fod yr eiddo'n rhannu wal gyda'i safle yn ogystal ag eiddo preswyl eraill ac y byddai problemau sŵn gan nad oedd mesurau gwrthsain. Roedd y busnes yn camu ar balmant cul ac roedd yn bwynt pinsio ar Wine Street. Dywedodd y byddai'r safle'n achosi niwsans cyhoeddus a chwestiynodd sut y gellid gorfodi'r terfyn tair diod. Yn ogystal, nid oedd darpariaeth ar gyfer cyfleusterau echdynnu a gwaredu aroglau coginio a chyfeiriwyd at y caniatâd cynllunio cyfredol ar gyfer y safle. Roedd diogelwch y cyhoedd hefyd yn bryder oherwydd ar hyn o bryd roedd swm isel o ddanfoniadau a gwasanaethu megis casgliadau gwastraff a fyddai'n cynyddu ac yn achosi niwsans. Dywedodd J. Cook hefyd fod y stryd hefyd yn cael ei defnyddio gan gerddwyr ac ar gyfer parcio.

Nodwyd nad oedd unrhyw orfodaeth gynllunio yn ymwneud â'r safle o fewn cylch gwaith yr Is-bwyllgor Trwyddedu.

Cytunodd y Parti â Diddordeb nesaf, D. Ashworth gyda'r materion a gyflwynwyd gan J. Cook a dywedodd nad oedd am ehangu ar ei gwrthwynebiadau. Ond dywedodd ei bod o'r farn y dylai Mr Birch fod wedi siarad â hi ac nid y ffordd arall o gwmpas fel y nododd yr Ymgeisydd yn ei anerchiad agoriadol i'r Is-bwyllgor.

Cytunodd y trydydd Parti â Diddordeb, S. Randell, gyda'r sylwadau gan y Partïon â Diddordeb eraill ac nid oedd am ymhelaethu ymhellach.

Soniodd y Parti â Diddordeb olaf, J. Dudley, am y tafarndai a'r safleoedd eraill yn yr ardal a oedd â waliau hen a thrwchus iawn a oedd yn atal sŵn rhag dianc. Dywedodd J. Dudley ei fod yn byw gyferbyn â'r adeilad. Byddai danfoniadau a chasgliadau'n stopio yn y stryd yn broblem fawr, a phe byddai Bistro yn cael ei gymeradwyo yna byddai mwy o ddanfoniadau a gwastraff. Ychwanegodd J. Dudley y byddai gwerthu alcohol tan 10.00pm yn achosi niwsans cyhoeddus ac y byddai'r teledu cylch cyfyng, un o ofynion yr Heddlu, yn edrych ar ei dŷ. Dywedodd J. Dudley y byddai'n rhaid i unrhyw ddarpariaeth teledu cylch cyfyng y cytunwyd arni gyda'r Heddlu weithredu'n gyfreithlon.

I gloi, dywedodd yr ymgeisydd, C. Birch, nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law gan yr eiddo i fyny'r grisiau. Derbyniodd nad oedd unrhyw fesurau echdynnu yn y bwyty, ond byddai'n rhaid iddo fod yn ystyriol o hynny a'r hyn y gellid ei goginio yno. Dywedodd fod hyn y tu allan i gwmpas y cais sy'n cael ei ystyried heddiw. O ran Gwastraff, roedd storfa yn y cefn oedd yn ddiogel ac yn unol â gofynion Adran Iechyd Amgylcheddol y Cyngor. Byddai casgliadau gwastraff yn cael eu gwneud gan y Cyngor ac ar yr un pryd â chasgliadau’r cymdogion. Dywedodd C. Birch fod teledu cylch cyfyng eisoes ar waith ac nad oedd yn mynd heibio'r drws. O ran sŵn, dywedodd C. Birch y byddai'r Bistro yn lleoliad bach iawn felly ni fyddai'n swnllyd. O ran danfoniadau, byddai hyn yn digwydd yn yr un ffordd â chasgliadau gwastraff. Ni fyddai llawer o darfu, a byddai unrhyw ddanfoniadau'n digwydd yn ystod oriau gweithredu yn ystod y dydd.

I egluro, cadarnhaodd C. Birch nad oedd am ddiwygio na newid y cais a roddwyd gerbron yr Is-Bwyllgor.

Heb unrhyw bwyntiau na chwestiynau pellach gan yr Is-Bwyllgor, cadarnhaodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y byddai'r Is-bwyllgor yn trafod yn breifat, gyda'r penderfyniad ar y cais yn cael ei roi i bob plaid o fewn pum diwrnod gwaith. Yn dilyn hyn, gwnaeth yr Ymgeisydd, y Swyddog Trwyddedu, a'r Personau eraill oedd yn bresennol ddatgysylltu o'r gwrandawiad fel y cadarnhawyd gan Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, a thrafododd yr Is-bwyllgor Trwyddedu y cais yn breifat.

PENDERFYNWYD – Caniatáu’r cais, ynghyd â’r amodau y cytunwyd arnynt gan Heddlu De Cymru.

<u>Rhesymau dros y penderfyniad</u>

Wrth ddod i'r penderfyniad mae’r Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb oedd wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar. Rydym wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor. Ni chafwyd unrhyw achosion presennol o dorri deddfwriaeth drwyddedu, sef torri amcanion presennol yr amcanion trwyddedu, Atal Troseddau ac Anhrefn / Diogelwch y Cyhoedd / Atal Niwsans Cyhoeddus / Amddiffyn Plant rhag Niwed. Nid oedd materion yn ymwneud â thoriadau cynllunio'n faterion i'w hystyried gan y pwyllgor, ond beth bynnag, nid oedd tystiolaeth wedi'i chyflwyno gan yr Awdurdod Cynllunio. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o Drosedd ac Anhrefn gan yr Heddlu yn ymwneud â'r safle. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o sŵn nac arogl gan Iechyd yr Amgylchedd. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o gŵyn i'r Awdurdodau Cyfrifol mewn perthynas â'r safle gan drigolion lleol. Y prif wrthwynebiad i'r gweithgaredd trwyddedadwy y gwnaed cais amdano oedd gweithrediad yr oriau y tu allan i'r oriau a ganiateir ar hyn o bryd. Mae rhagdybiaeth yn y gyfraith y dylid rhoi trwyddedau ac os bydd materion sy'n ymwneud â'r Amcanion Trwyddedu yn codi gellir adolygu'r drwydded, yn seiliedig ar dystiolaeth o'r diffyg cydymffurfiaeth â'r amcanion. Gan fod materion yn sefyll ar hyn o bryd nid yw'r safle yn gallu yn ôl y gyfraith weithredu y tu allan i'r oriau cynllunio gweithredu presennol ar gyfer y safle. Felly byddai rhoi'r drwydded ond yn caniatáu gweithrediad cyfreithlon presennol y busnes ond gan ychwanegu'r ddarpariaeth o werthu alcohol cyfyngedig

gan yr amodau sydd wedi'u gosod.  Nodwyd nad yw ‘gwerthiannau oddi ar’ yn cael eu caniatáu chwaith.